

Yr Asiantaeth yn croesawu dyfarniad euog mewn treial DNP

Heddiw, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn croesawu'r newyddion bod dyn wedi'i ddyfarnu'n euog ar gyhuddiadau o ddynladdiad a chyflenwi atchwanegiadau bwyd (food supplements) anniogel, yn gysylltiedig â marwolaeth cysylltiedig â DNP y myfyriwr Eloise Parry.

Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol yr ASB a ddechreuodd yr ymchwiliad gan chwarae rôl allweddol wrth nodi ac olrhain y bobl dan sylw. Yna, gweithiodd yr Uned gyda Chyngor Harrow Council a aeth â'r ymchwiliad yn ei flaen, fel yr awdurdod lleol cymwys.

Gwerthu DNP ar-lein am elw

Cafodd Bernard Rebelo, 30 oed, o Gosport yn Hampshire, ei farnu'n euog o gyhuddiad o ddynladdiad trwy esgeuluster gros a gwerthu bwyd anniogel. Dyma'r gollfarn dynladdiad cyntaf erioed i werthwr y cemegyn diwydiannol '2,4 dinitrophenol' (DNP) i'w fwyta gan bobl.

Roedd ar dreial, wedi ei gyhuddo o ladd Eloise Parry, 21, trwy werthu DNP iddi i'w ddefnyddio fel cymorth colli pwysau. Roedd Rebelo yn gweithredu o fflat yn Harrow, gogledd orllewin Llundain, lle'r oedd yn rhoi'r plaladdwr peryglus mewn capsïwlau, ac yna'n marchnata a gwerthu'r gwenwyn ar-lein fel cymorth colli pwysau, gan greu elw sylweddol.

A hithau'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, cymerodd Eloise Parry y DNP cyn iddi farw yn Ysbyty Brenhinol yr Amwythig yn Swydd Amwythig ym mis Ebrill 2015.

Mae colffarn yn anfon neges glir

Dywedodd Dr Colin Sullivan, Prif Swyddog Gweithredu'r ASB: "Mae'r dyfarniad euog hon yn anfon neges gref i unrhyw un sy'n ceisio elwa o werthu'r sylwedd gwenwynig hwn yn anghyfreithlon i'w fwyta gan bobl. Byddwn yn parhau i weithredu'n ddi-flino i fynd i'r afael â'r rhai sy'n peryglu'r cyhoedd ac yn torri'r gyfraith. Rydym ni'n cydnabod gwaith gwych Cyngor Harrow, gan weithio gyda'n Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd, i baratoi'r achos hanesyddol hwn i fynd i dreial."

Bydd Rebelo yn cael ei ddedfrydu maes o law.

Marwolaeth myfyriwr ifanc

Clywodd y llys bod Eloise Parry wedi dechrau cymryd y cemegyn mewn capsïwlau ym mis Chwefror 2015. Bu farw yn yr ysbyty ar ôl cymryd wyth capsïwl.

Mae DNP yn gemegyn diwydiannol na ddylid ei fwyta dan unrhyw amgylchiadau. Mae gwneud hynny yn gallu lladd, a wir wedi lladd. Mae ei werthu i'w fwyta gan bobl yn anghyfreithlon o dan gyfraith bwyd.

Dylai unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n amau unrhyw un o werthu DNP i'w gymryd gan bobl yn anghyfreithlon o dan gyfraith bwyd. ffonio Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol ar 020 7276 8787.